
National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Taith bedd Gelert

Bydd y daith gylchol ar hyd glan afon hon yn cyflwyno chwedl Gelert a'r Tywysog Llywelyn i chi, y chwedl a roddodd enw i'r pentref, ac yn dangos pam y daeth Beddgelert mor boblogaidd gydag awduron llyfrau taith cynnar fel Thomas Pennant ac artistiaid fel JMW Turner.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Beddgelert, LL55 4YA

Map AO: SH592482

Gweithgaredd: Cerdded

Hawdd

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn yn Eryri yn gyffredinol, ond cadwch nhw dan reolaeth os gwelwch yn dda ac ar dennyn o gwmpas anifeiliaid fferm.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1 (km: 1.6)

Mynediad: Hawdd

Hyd: 40 munud - 1 awr

## Tirwedd

Llwybr diffiniedig ar hyd glan yr afon.

## Cyfanswm y camau: 8

Man cychwyn: Pont droed dros Afon Glaslyn, i'r de o ganol y pentref. Cyfeirnod grid: SH592482

1. Trowch i'r dde cyn y bont droed dros Afon Glaslyn a dilyn y llwybr troed dynodedig. Ar y dde i chi mae eglwys y Santes Fair.
2. Dilynwch y llwybr ar hyd Afon Glaslyn a throi i'r dde ar y llwybr.
3. Trowch ar hyd y llwybr a chroesi'r cae. Byddwch yn cyrraedd y gofgolofn garreg sydd ar fedd Gelert.
4. Daliwch i fynd ar hyd y llwybr at Feudy Buarth Gwyn lle mae cerflun o Gelert y tu mewn iddo. Bydd y llwybr yn awr yn eich arwain yn ôl at lan yr afon. Croeswch lednant dros bont droed fach ac fe welwch chi ynys goediog o'ch blaen yn Afon Glaslyn o'r enw Ynys Dol-leian.
5. Mae'r enw Ynys Dol-leian yn awgrymu presenoldeb cymuned Gristnogol hynafol ym Meddgelert yn y gorffennol. Mae Afon Glaslyn yn afon bwysig i eogiaid silio a darlunnir hynny gan y giât y byddwch yn mynd trwyddi yma. Dilynwch lan yr afon nes cyrhaeddwch chi bont droed yn croesi Afon Glaslyn.
6. Croeswch yr afon ar hyd y bont droed. Gosodwyd y bont droed yn lle hen bont y rheilffordd a gaeodd yn yr 1990au. Ychydig gannoedd o fetrau i lawr yr afon oddi yma mae Bwlch Aberglaslyn. Dilynwch yr afon ar i fyny. Ar y dde, uwch eich pen, mae Craig y Llan oedd wedi ei gorchuddio a'r Rhododendron ponticum ymledol hyd ychydig flynyddoedd yn ôl.
7. Wrth ddilyn yr afon yn ôl tuag at bentref Beddgelert dewch at giât arall mewn wal. Gan ddefnyddio coed lleol mae'r ddelwedd o drên stêm a wnaed o gopr yn adlewyrchu treftadaeth gwaith copr yr ardal a'r cysylltiad â Rheilffordd Ucheldir Cymru.
8. Byddwch yn awr yn nesu at ddiwedd y daith a byddwch yn mynd trwy'r giât olaf sydd eto wedi ei gwneud o bren lleol. Mae'r giât yn adlewyrchu'r cerfiadau y gellir eu gweld tu mewn i'r eglwys leol.

Man gorffen: Pont droed dros Afon Glaslyn, i'r de o ganol y pentref. Cyfeirnod grid: SH592482